# DIOGELU PLANT, POBL IFANC A PHOBL AGORED I NIWED

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am ddewis astudio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'r ffurflen hon yn ddatganiad hanfodol o euogfarnau troseddol, gorchmynion rhwymo, neu rybuddion:

Byddwch yn gwerthfawrogi bod angen i bob gwasanaeth cyhoeddus sy'n gyfrifol am les plant, pobl ifanc neu bobl agored i niwed fod yn arbennig o ofalus am gymeriad a chefndir ei bersonél y bydd eu gwaith yn dod â nhw i gysylltiad â phlant a phobl ifanc neu bobl agored i niwed.

Fel rhan o'r broses derbyniadau ar gyfer eich rhaglen, **mae'n rhaid i chi lenwi ein ffurflen hunan-ddatganiad** a geir drosodd. Yn ogystal â chwblhau'r ffurflen hon, bydd angen i chi gwblhau Datgeliad Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer GDG ynglŷn â thrin, defnyddio, storio, cadw a gwaredu gwybodaeth Datgelu yn gywir. Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at yr adran Polisïau www.cardiffmet.ac.uk/dbs

Sylwer, os ydych chi'n ymgeisydd rhan-amser yn cael eich noddi gan y man gwaith lle byddwch yn cynnal eich lleoliad gwaith (ac eithrio Ymarferydd Seicoleg Fforensig PgDip), ni fydd angen i chi gwblhau'r Datgeliad Manylach gan y GDG.

Gofynnwn ichi ddatgelu unrhyw euogfarnau troseddol, gorchmynion rhwymo, neu rybuddion nad ydynt yn "ddiogel" fel y'u diffinnir gan Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013). Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y canlyniadau GDG Manylach wrth benderfynu ar addasrwydd ymgeisydd a phan ddatgelir unrhyw beth ar y GDG Manylach, nad yw'r Brifysgol wedi'i ystyried yn flaenorol, gellir ei ystyried wrth benderfynu a ddylid caniatáu i fyfyriwr ddechrau neu barhau â rhaglen astudio. Dylech nodi bod cwblhau a dychwelyd y ffurflen hon yn foddhaol yn amod mynediad i'ch cwrs. Os nodir euogfarn, rhowch lythyr mewn amlen wedi'i selio yn manylu / egluro cynnwys ac amgylchiadau'r euogfarn / rhybudd er mwyn cynorthwyo gyda phrosesu eich cais.

Mae gwybodaeth ar wiriadau cofnod troseddol ar gael ar wefan GDG yn www.gov.uk/dbs. Er mwyn sicrhau bod y gwiriad hwn mor ddiweddar â phosib, cychwynnwch y gwiriad o fis Ebrill y flwyddyn ymuno (ar gyfer dyddiadau cychwyn Medi) a / neu, ar ôl i chi benderfynu mai Prifysgol Metropolitan Caerdydd yw'ch dewis Cadarn. Argymhellwn hefyd bod ymgeiswyr yn cofrestru gyda'r Gwasanaeth Diweddaru trwy wefan GDG fel bod y datgeliad yn parhau i fod yn gyfoes am gyfnod yr astudiaethau ac yn cynnwys lleoliadau, lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'r weithdrefn hon yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn diogelu plant a phobl ifanc neu bobl agored i niwed ac mae'n amod y mae angen ei gyflawni. **Sylwch y bydd angen cynnal y broses hon cyn eich bod yn dechrau'r rhaglen. Mae'n hanfodol i'ch lleoliad a gall methu â chydymffurfio â hyn beryglu'ch lle ar y rhaglen.**

Os ydych eisoes wedi ymgymryd â gwiriad GDG Manylach ac wedi cofrestru ar gyfer y **Gwasanaeth Diweddaru**, gallwch anfon y dystysgrif GDG wreiddiol atom ynghyd â'r Ffurflen Hunan-ddatganiad wedi'i chwblhau. Ar yr amod eich bod wedi rhoi eich caniatâd a gynhwysir ar y ffurflen hon, gallwn wirio bod eich tystysgrif yn foddhaol. Cyfeiriwch at ein polisi GDG ar ein gwefan yn www.cardiffmet.ac.uk/dbs i gael rhagor o wybodaeth.

Ar ôl ei chwblhau, dylai'r ddogfen hon gael ei dychwelyd i **Derbyniadau, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YB.**

Trowch drosodd i lenwi'r ffurflen.

Yn gywir



**Lisa Bowen**
**Pennaeth Derbyniadau a Chyfathrebiadau Cofrestru,**
**Marchnata a Recriwtio Myfyrwyr 02920 416014**

## DIOGELU PLANT, POBL IFANC A PHOBL AGORED I NIWED

*Cwblhewch mewn PRIFLYTHRENNAU a llofnodwch os gwelwch yn dda*

Mr/Mrs/Ms/Miss/Dr .... .... .... ... ... ... .... .. ..... .... ...... ....... ......... ... .. ......... ..... ..... ...... .. ...... ..(Enw Llawn)

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad Presennol | Cyfeiriad Blaenorol |
| Enw(au) blaenorol neu enw(au) eraill | Cwrs ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd |
| Dyddiad Geni ... ..... ...... .... ...... ... ............... ..<br>Man Geni …………,…………....... .......... .. | Blwyddyn Cychwyn |

Datganiad

Cyn gwneud eich datganiad, nodwch y bydd yr holl rybuddion ac euogfarnau am droseddau treisgar a rhywiol difrifol penodol, a throseddau penodedig eraill sy'n berthnasol i swyddi sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed, yn parhau i fod yn ddarostyngedig i ddatgeliad. Yn ogystal, bydd yr holl euogfarnau sy'n arwain at ddedfryd o garchar, p'un a ydynt yn cael eu hatal neu beidio, yn ddarostyngedig i ddatgeliad, fel y bydd yr holl euogfarnau lle mae unigolyn wedi cofnodi mwy nag un euogfarn. Bydd unrhyw dwyll ynghylch euogfarnau, ac yn y blaen yn arwain at dynnu cymeradwyaeth yn ôl.

Atebwch naill ai '**DO**' neu '**NADDO**'.

Ydych chi erioed wedi'ch cael yn euog o drosedd?

Ydych chi erioed wedi cael rhybudd am drosedd?

*Os ydych chi wedi ateb 'Do' i'r naill neu'r llall o'r uchod, efallai yr hoffech ysgrifennu datganiad byr i gefnogi'ch cais a gosod hwn mewn amlen wedi'i selio (wedi'i nodi'n gyfrinachol) at sylw'r Panel GDG / Diogelu.*

Rydw i (llofnod) ......... .... ...... ...... ...... ........ .... ...... .......... ... yn datgan bod y wybodaeth ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir ac yn rhoi fy nghaniatâd i Brifysgol Metropolitan Caerdydd i wirio Gwasanaeth Diweddaru GDG i sicrhau bod fy Nhystysgrif yn dderbyniol ar gyfer mynediad. Rwyf hefyd yn rhoi caniatâd i'r Brifysgol ystyried yr holl wybodaeth a geir ar y Datgeliad Manylach GDG wrth benderfynu ar fynediad a / neu barhad ar raglen astudio. Rwyf hefyd yn cytuno i wneud archwiliad Datgelu gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os yw Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn credu bod hynny'n angenrheidiol.

Dyddiad: ... ...... .... ........... ...... ....... .... .......... ... ........... .......... ... ......... ................ .. .... .. ... ....... ..